**EITEM**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Y Cyngor |
| **DYDDIAD** | 13 Mai 2010 |
| **TEITL** | Gwyliau Ysgol 2010/11 |
| **PWRPAS** | Adroddiad ar sail ymgynghori pellach |
| **AWDUR** | Dewi R Jones, Pennaeth Addysg |
| **ARGYMHELLIAD** | Derbyn yr adroddiad |
| **ARWEINYDD PORTFFOLIO** | Y Cynghorydd Liz Saville Roberts |

**Cefndir**

Yng nghyfarfod Y Cyngor ar 21 Ionawr 2010, trafodwyd cynnig Y Cynghorydd John Pughe Roberts y dylid newid dyddiad cau ysgolion Yr Awdurdod ddiwedd Tymor yr Haf 2011 o ddydd Mercher 20 Gorffennaf i ddydd Gwener 16 Gorffennaf er mwyn i'r disgyblion, rhieni, athrawon ac eraill o weithlu'r ysgolion a fyddai'n dymuno mynd i'r Sioe Amaethyddol yn Llanelwedd fedru gwneud hynny heb unrhyw anhawster.

Cyflwynais adroddiad yn amlinellu'r drefn a ddilynwyd wrth benderfynu ar ddyddiadau gwyliau ysgol am y chwe blynedd nesaf trwy gydymgynghori efo awdurdodau'r Gogledd, yr ysgolion ac undebau'r athrawon.

Gan barchu'r camau a gymrwyd gan y swyddogion addysg ac aelodau Grŵp Tasg Rhyng-awdurdod Gogledd Cymru wrth gydgordio dyddiadau gwyliau ysgol yn y rhanbarth, cytunodd yr aelodau etholedig ar welliant i'r cynnig gwreiddiol gan ofyn i'r swyddogion addysg ail-ymweld â'r holl drafodaethau er mwyn gweithredu ar ddymuniad Y Cyngor er mwyn galluogi rhieni a phlant Y Sir i fynychu'r Sioe yn 2011. Gofynnwyd i ni hefyd, trwy gyfrwng Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru, gysylltu gyda'r Gweinidog Addysg yn Y Cynulliad a gofyn iddo am drefniant gwyliau cyffredin i Gymru gyfan a fyddai'n ystyried digwyddiadau o bwysigrwydd cenedlaethol.

**Gweithredu pellach**

Ar sail yr uchod gweithredais fel a ganlyn:

i. Cysylltu efo'r Swyddog sy'n cydlynu trefniadau a pholisi Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru a gofyn iddo am gefndir y trafodaethau yn y maes hwn, y cyswllt efo cyn-weinidogion Addysg a'r bwriadau ar gyfer y dyfodol. Nododd y canlynol:
   - Mater i awdurdodau lleol yw pennu dyddiadau gwyliau ysgol.
   - Yn y blynyddoedd diwethaf, symudwyd yn raddol at drefniadau rhanbarthol.
   - Y cam nesaf fydd ceisio sefydlu patrwm cenedlaethol. Bydd hyn yn destun cryn drafod.
   - Yr angen i ystyried newid patrwm blwyddyn ysgol i chwe thymor.
   - (Dyma, felly, sefyllfa'r drafodaeth genedlaethol ar lefel Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru).

ii. Ymgynghorais ymhellach efo'r grwpiau canlynol:
   - Penaethiaid ysgolion uwchradd y Sir.
   - Grŵp Ymgynghorol penaethiaid ysgolion cynradd ac arbennig y Sir.
   - Penaethiaid ysgolion cynradd ac arbennig y Sir.
   - Fforwm Undebau'r Athrawon.
   - Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Consortiwm y Gogledd.

Nid oedd yr un o'r grwpiau hyn yn dymuno gweld y dyddiadau yn cael eu newid.

Ymhellach na hynny gofynnais i benaethiaid yr ysgolion drafod y mater efo'u cyrff llywodraethu gan anfon unrhyw sylwadau arwyddocaol ataf. Derbyniais sylwadau gan ddau Gorff Llywodraethu ac ymatebais trwy ddweud y byddwn yn cyflwyno sylwadau pellach i'r Cyngor llawn yn ystod Tymor Yr Haf.

**Sylwadau**

Er fy mod yn ail-adrodd sylwadau a gyflwynais yn fy adroddiad blaenorol, fe'u nodaf eto er hwylustod:

- Byddai'n broblemus dod o hyd i dri diwrnod ysgol i gymryd lle'r dyddiau ym mis Gorffennaf.
- Gellid ceisio datrysiad lleol trwy gyfuniad o adennill dyddiau trwy gynnal sesiynau oriau gwyll ar gyfer HMS, rhieni i ddefnyddio eu hawl i ofyn am ddyddiau gwyliau ychwanegol dan drefniadau amgen, ac ysgolion i ystyried trefnu tripiau i'r sioe.

Yn fy nhrafodaethau efo'r penaethiaid fe nodais y gallai ysgol unigol gyflwyno cais i'r Awdurdod i amrywio patrwm y gwyliau blynyddol er mwyn hwyluso ei threfniadau ei hun. Gallem gefnogi cais o'r fath petai ysgol unigol a'i Chorff Llywodraethu yn derbyn y cyfrifoldeb am drefnu tri diwrnod ysgol yn lle'r dyddiau gwyliau blynyddol ychwanegol ym mis Gorffennaf.

**Casgliad**

Rwy'n diolch i chi fel aelodau am roi'r cyfle i mi ail-ymgynghori sydd ynddo'i hun yn cydnabod y drefn sydd gennym wrth ymwneud â'n rhanddeiliaid.

Gofynnaf i chi felly ystyried y sylwadau yn yr isadran flaenorol a dod i'ch penderfyniad ar sail hynny.